



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb i adroddiad thematig Estyn ar baratoi ar gyfer y fframwaith cymhwysedd digidol

OGL

ISBN digidol 978 1 78903 592 6
© Hawlfraint y Goron Gorfennaf 2018
WG30290

Teitl yr adroddiad:

Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Manylion yr adroddiad:

Ysgrifennir yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith Estyn ar gyfer 2017-2018. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sut mae ysgolion yn dechrau sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u cymhwysedd digidol, yn ôl yr hyn a amlinellir yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus.

Mae'r adroddiad yn nodi enghreifftiau o arfer arloesol a diddorol yn y ffordd mae ysgolion yn paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (y Fframwaith) ac yn eu rhannu fel y gall ysgolion eraill eu hystyried. Bydd yr adroddiad yn helpu ysgolion i ddeall eu cryfderau presennol a'u meysydd i'w gwella a'r newidiadau sydd angen eu gwneud er mwyn sicrhau bod y Fframwaith yn rhan annatod o'u darpariaeth. Mae'n darparu trosolwg o'r gwaith paratoi y mae'r ysgolion hyn wedi'i wneud tua blwyddyn wedi i'r Fframwaith fod ar gael i ysgolion.

Mae'r canfyddiadau'n gadarnhaol ar y cyfan gan gydnabod pan fo gan ysgolion weledigaeth ddigidol glir, a'r ysgol gyfan yn cyfrannu ac yn ymgysylltu, mae hynny'n sicrhau y gellir sefydlu'r fframwaith yn effeithiol. Mae ymgysylltu â'r ysgol gyfan a magu hyder aelodau staff ymysg rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at sefydlu'r fframwaith yn llwyddiannus. Mae'n arbennig o galonogol bod y rhan fwyaf o athrawon mewn ysgolion arbennig, cynradd, uwchradd a phob oed wedi dechrau trafod sut i addasu eu cynlluniau i ymgorffori'r Fframwaith yn y cwricwlwm.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:**Arweinyddiaeth**

- Mae arweinwyr yn rheoli newid yn dda ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y Fframwaith, maen nhw'n cynnwys staff a llywodraethwyr yn y gwaith o helpu'r ysgol i wireddu'r weledigaeth.
- Mae llawer yn trosi eu gweledigaeth yn gynllun sydd â sail resymegol glir ar gyfer archwilio, hyfforddi, darparu adnoddau, monitro ac arfarnu datblygiadau. Nid yw cynlluniau digidol wedi'u datblygu'n llawn mewn lleiafrif ohonynt.
- Mae pob un bron yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol ac yn sicrhau bod staff yn datblygu cymhwysedd a hyder. Nid oes gan rai

ddigon o ddealltwriaeth o faterion technegol a allai effeithio ar allu'r ysgol i wireddu'r Fframwaith yn llawn.

- Dywed arweinwyr eu bod yn ansicr ynghylch pryd y dylid gweithredu'r Fframwaith ac maent yn datgan mai dyma'r rheswm pam nad yw rhai yn gwireddu'r Fframwaith.

Rôl yr arweinydd digidol

- Mae gan y rhan fwyaf wybodaeth drylwyr am y Fframwaith. Fodd bynnag, mae tuedd gan leiafrif i greu diwylliant o ddibyniaeth. Maen nhw yn fwyaf effeithiol pan allant gael effaith ar benderfyniadau ysgol gyfan.
- Ym mwyafrif yr ysgolion uwchradd, mae ganddynt weithgor yn cynnwys adrannau amrywiol er mwyn ymwneud â'r Fframwaith ac yn deal ei effaith ar ddatblygiadau ysgol gyfan.
- Mae'r rhan fwyaf wedi cynnal archwiliad caledwedd a rhwydwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cynnal archwiliadau ofalus o fedrau athrawon gan ddefnyddio hyn i gynllunio hyfforddiant. Mewn lleiafrif, pan nad oes archwiliad wedi'i gynnal, ni allant gynllunio'n llawn i gefnogi staff.
- Mewn ysgolion sydd wedi mapio darpariaeth y Fframwaith ar draws y cwricwlwm, nid yw llawer wedi mynd i'r afael eto â bylchau yn y ddarpariaeth. Os nad eir i'r afael â'r rhain, mae ysgolion mewn perygl o ddyblygu darpariaeth annigonol bresennol mewn TGCh ar draws y cwricwlwm.
- Nid oes digon o arweinwyr digidol mewn ysgolion uwchradd wedi mapio darpariaeth y Fframwaith ar draws cyfnod allweddol 4. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn paratoi'n ddigon da i wireddu'r Fframwaith yn ei gyfanrwydd.

Dysgu proffesiynol

- Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae bron pob un o'r staff wedi cymryd rhan mewn trafodaethau am y cynllun digidol ar gyfer yr ysgol, ei gynnwys, beth sydd ynghlwm a'r disgwyliadau. Mae hyn wedi arwain at agweddau cadarnhaol tuag at y Fframwaith.
- Mae yna fwy o hyder gyda rhai o linyddau cynnwys y Fframwaith nag eraill. Fodd bynnag, mae arweinwyr digidol mewn ysgolion ac mewn consortia o'r farn nad yw athrawon yn llwyr werthfawrogi ehangder llinyn dinasyddiaeth.

- Mae ymarferwyr y cyfnod sylfaen yn teimlo'n ddigon cymwys o ran y rhan fwyaf o'r agweddau yn y Fframwaith tra bo ymarferwyr yng nghyfnod allweddol 2 ac uwch yn llai sicr am gyflwyno holl ystod y medrau digidol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon wedi dechrau trafod sut i addasu eu cynlluniau i ymgorffori'r Fframwaith yn y cwricwlwm.
- Lle nad yw arweinwyr wedi cyfleu eu gweledigaeth yn llwyddiannus, mae gan ychydig o athrawon agweddau negyddol tuag at baratoi ar gyfer y Fframwaith.
- Mae canolfannau addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon yn dechrau paratoi athrawon dan hyfforddiant â'r medrau angenrheidiol i gyflwyno'r Fframwaith. Fodd bynnag, mae'n amrywio'n ormodol gan nad ydynt yn ymwneud rhyw lawer â datblygiadau'n gysylltiedig â'r Fframwaith, ac oherwydd eu diffyg ymwybyddiaeth o wendidau yn y ddarpariaeth TGCh mewn ysgolion.

Argymhellion:

Cyflwynir un ar ddeg o argymhellion yn yr adroddiad, mae chwech ohonynt ar gyfer ysgolion, dau ar gyfer awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol a thri ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Argymhellion ar gyfer ysgolion:

- A1 Cynnwys pob rhanddeiliad yn y gwaith o ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer y Fframwaith
- A2 Penodi arweinydd digidol, sicrhau cefnogaeth lwyr uwch arweinwyr a monitro datblygiadau'n rheolaidd
- A3 Archwilio anghenion dysgu proffesiynol athrawon a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio hyfforddiant, cymorth ac arweiniad dros gyfnod realistig
- A4 Mapio'r Fframwaith ar draws y cwricwlwm a sicrhau nad oes bylchau yn y ddarpariaeth a bod digon o barhad a dilyniant
- A5 Cynnal archwiliadau caledwedd a rhwydwaith
- A6 Sicrhau bod staff yn cydweithredu â staff eraill i rannu arfer da

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 1–5:

Mae'r argymhellion hyn ar gyfer ysgolion ac rydym yn derbyn eu cynnwys. Rydym yn croesawu'r argymhellion hyn i ysgolion gan eu bod yn adlewyrchu ein disgwyliadau ein hunain er mwyn sefydlu cymhwysedd digidol yn effeithiol yn narpariaeth ysgolion.

Rydym yn annog ysgolion i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt ar Dysgu Cymru er mwyn gwella eu darpariaeth, ac mae canllawiau ac adnodd mapio oll yn darparu'r mecanwaith ar gyfer gwneud hyn.

Rydym hefyd yn croesawu'r argymhelliad y bydd ysgolion yn cynnal archwiliadau caledwedd a rhwydwaith fel rhan o'u gwaith o baratoi i ddarparu'r Fframwaith. Bydd sefydlu archwiliadau caledwedd a rhwydwaith rheolaidd, ynghyd â chynlluniau digidol strategol effeithlon a strategaeth adfywio technoleg, yn helpu ysgolion i ddiogelu eu hamgylchedd digidol i'r dyfodol er mwyn cefnogi mwy o anghenion addysgu a dysgu digidol.

Bydd cymorth awdurdodau lleol i gynnal archwiliadau caledwedd a rhwydwaith rheolaidd yn hanfodol er mwyn cefnogi'r ysgolion hynny sydd heb yr arbenigedd neu'r adnoddau digonol i gyflawni'r swyddogaeth hon. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw archwiliad caledwedd a rhwydwaith a gynhelir yn ystyried yr holl amgylchedd digidol, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar nifer defnyddwyr y dyfeisiau a'u gallu.

Mae'n bwysig nodi na fydd cynnal archwiliad yn datrys y broblem o galedwedd a rhwydwaith TGCh annigonol. Mae hyn yn rhan o gontinwrm, lle mae gofyn i gyrff lywodraethu ac awdurdodau lleol ymrwmo i wariant perthnasol a gwaith cynllunio cyllidebau yn y tymor hwy, sy'n cynnwys uwchraddio a gwella'r rhwydwaith TGCh dros gyfnod o flynyddoedd.

Rydym yn cydnabod y bydd ysgolion yn parhau i fod angen cyngor a chymorth yn y maes hwn. Nodwn o'r adroddiad fod ysgolion yn defnyddio Canllawiau Digidol Addysg i'w helpu gyda'u harchwiliad rhwydwaith. Felly, byddwn yn dal ati i ddatblygu ac adolygu hyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion ysgolion wrth symud ymlaen. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn datblygu Safonau Digidol Addysg a fydd yn amlinellu egwyddorion penodol y gall ysgolion fod am eu mabwysiadu er mwyn sicrhau bod eu hamgylchedd digidol yn cael ei reoli a'i drefnu'n effeithiol.

Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol:

- A7 Cynorthwyo pob ysgol i fynd i'r afael â'r argymhellion uchod
- A8 Monitro pa mor dda mae ysgolion unigol yn dod yn eu blaen â gwredu'r Fframwaith a herio cynnydd cyfyngedig

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 6–8:

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn ymwneud yn rheolaidd ag Arweinwyr Digidol y Consortia Addysg Rhanbarthol a byddwn yn tynnu eu sylw at yr argymhellion a roddwyd iddynt ac i ysgolion gan yr adroddiad hwn.

Rydym wedi trafod hefyd y ffordd orau o ymgysylltu â'r holl ysgolion (ysgolion uwchradd yn benodol). Mae gan bob consortiwm ddull cyflawni gwahanol yn ôl anghenion eu rhanbarthau. Byddwn yn parhau i gydweithio â nhw er mwyn sicrhau bod yr holl ysgolion yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig cyn y cwricwlwm newydd.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A9 Gyfleu'r disgwyliadau ar gyfer ymgorffori'r Fframwaith, gan gynnwys amserlenni, i ysgolion yn glir

Mae'r holl gyfathrebu sy'n ymwneud â'r Fframwaith wedi nodi'n glir mai dyma'r elfen gyntaf o'r cwricwlwm newydd i Gymru sydd ar gael. Rydym wedi pwysleisio y dylai ysgolion ddechrau defnyddio'r Fframwaith er mwyn dechrau'r broses o bontio i'r cwricwlwm newydd.

Rydym wedi nodi hefyd y bydd Cymhwysedd Digidol yn un o dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd o fewn y cwricwlwm newydd (gyda statws tebyg yn y cwricwlwm i lythrennedd a rhifedd). Y Fframwaith yw'r mecanwaith i gynorthwyo ysgolion i sefydlu Cymhwysedd Digidol ar draws y cwricwlwm.

Er mwyn sicrhau bod ysgolion yn deall ein disgwyliadau'n glir, rydym wedi:

2016 - Lansio'r Fframwaith gyda chyfres o adnoddau yn cynnwys amserlen o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer sefydlu cymhwysedd digidol cyn y cwricwlwm newydd.

2017 – Fel rhan o *Genhadaeth ein Cenedl*, aethom ati i ailadrodd ein hymrwymiad i sicrhau bod ein pobl ifanc yn fwy cymwys yn ddigidol.

2018 - Darparu copi caled o amserlen y Fframwaith i bob ysgol gan amlinellu'n glir ein disgwyliadau o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer sefydlu cymhwysedd digidol.

Cyfathrebu parhaus ag ysgolion

Er mwyn cynnal momentwm, rydym wedi diweddarau ein canllawiau ar Dysgu Cymru'n ddiweddar a byddwn yn ail-lansio y deunydd hwn y tymor hwn ynghyd â delweddau esboniadol a fydd ar gael i ysgolion. Fel rhan o hyn, mae gennym

gyfres o negeseuon Digidol, gan gynnwys o ysgolion uwchradd a sefydliadau Addysg Bellach, a fydd yn cael eu gosod ar ein blog Cwricwlwm Cymru. Byddwn yn defnyddio ein cyfryngau cymdeithasol a'r cylchlythyr DYSG hefyd i hysbysebu'r deunyddiau diwygiedig hyn.

Mae blogiau'r cwricwlwm sydd wedi'u cyhoeddi ers 2017 yn parhau i fod yn boblogaidd, gyda 3,300 yn edrych ar adnodd mapio'r Fframwaith, 2,400 yn edrych ar y Cwestiynau Cyffredin a 2,400 yn edrych ar yr Adnodd Dysgu Proffesiynol.

Rydym yn parhau i gydweithio â'r Consortia ac Arloeswyr Digidol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael cefnogaeth ac yn deall yn glir yr hyn sy'n ddisgwyliedig. Rydym hefyd yn darparu cyfathrebiadau rheolaidd, drwy flog y Cwricwlwm a DYSG, sy'n darparu enghreifftiau o'r ffordd y mae ysgolion gwahanol wedi ymdrin â'r Fframwaith.

Mae ein Harloeswyr Digidol wedi ychwanegu deunyddiau hefyd o HWB sydd ar gael i bob ysgol. Roedd digwyddiadau Dysgu Digidol Cenedlaethol yn 2017 a 2018 hefyd yn ystyried dulliau creadigol o weithredu'r Fframwaith mewn ysgolion.

Bydd gweithredu'r Fframwaith yn elfen allweddol o'r Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, a fydd yn cael ei lansio ym mis Tachwedd 2018 yn unol ag amserlenni Cenhadaeth ein Cenedl.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â'r rhanbarthau er mwyn sicrhau bod cynlluniau busnes yn cyd-fynd â'n disgwyliadau dysgu proffesiynol ar gyfer y Fframwaith.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A10 Sicrhau bod cyrsiau addysg gychwynnol athrawon yn rhoi i athrawon newydd y medrau angenrheidiol i wireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus

Mae diwygiadau i Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yn mynnu bod partneriaethau AGA achrededig yn cynllunio a darparu cyrsiau sy'n cefnogi pedwar diben y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru ac yn mynd i'r afael â'r chwe maes dysgu a phrofiad (AoLE) er mwyn datblygu athrawon y dyfodol i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae EWC wedi cyhoeddi canlyniadau'r broses i ail-achredu pob AGA yng Nghymru. Mae'r manylebau ar gyfer y ddarpariaeth newydd yn ystyried yr angen i sicrhau bod y rhai sy'n dilyn y rhaglenni wedi'u paratoi'n ddigonol. Bydd hyn yn elfen allweddol o'n hymagwedd newydd at lwybrau rhan-amser a llwybrau sy'n

seiliedig ar waith drwy addysg athrawon.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A11 Gwella'r adnodd archwilio fel ei fod yn bodloni anghenion ysgolion yn well wrth iddynt asesu hyder athrawon i gyflwyno'r Fframwaith

Aethom ati i ddatblygu Adnodd Anghenion Dysgu Proffesiynol ar y cyd â'n Harloeswyr Digidol a'n Consortia yn dilyn lansio'r Fframwaith. Ei nod yw helpu ymarferwyr i nodi'r meysydd y maen nhw eisoes yn hyderus ynddynt a'r meysydd y credant sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae adborth parhaus gan arloeswyr digidol a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r adnodd. Rhoddwyd sylw i'r adborth ac i addasu'r adnodd ymhellach a'i ail-lansio ym mis Gorffennaf 2017. Byddwn yn trafod â'n harloeswyr digidol y ffordd orau o fynd ati i wneud newidiadau pellach i'r adnodd er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Hoffem roi hyder i athrawon ddarparu'r sgiliau hanfodol hyn yn effeithiol. Mae'r Fframwaith Dysgu Proffesiynol Digidol (DPLF) hwn wedi'i greu gan Arloeswyr Dysgu Digidol a Phroffesiynol a Chonsortia Rhanbarthol. Nod y DPLF yw helpu, cynorthwyo ac arwain athrawon ac arweinwyr i ddatblygu profiadau dysgu digidol ar gyfer disgyblion.

Bydd y DPLF ar gael maes o law ac mae'n seiliedig ar y Safonau Proffesiynol ac yn adlewyrchu egwyddorion y Model Dysgu Proffesiynol ac Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu.

Mae'r DPLF wedi'i wella a'i ddatblygu'n sylweddol wedi iddo gael ei brofi gan randdeiliaid amrywiol. Mae profion terfynol yn cael eu cynnal ar y fframwaith ar hyn o bryd fel y gellir ei gyhoeddi'n llawn ar fformat rhyngweithiol ar-lein. Bydd y fersiwn rhyngweithiol lawn ar gael pan lansir Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol yn yr hydref.

Manylion cyhoeddi:

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 12 Gorffennaf 2018 a gellir ei weld ar wefan Estyn:

<https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/paratoi-ar-gyfer-y-fframwaith-cymhwysedd-digidol>